



Canllawiau i fusnesau
eu cyflawni

**GLAMPIO O
ANSAWDD SICR**



Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad
- 2.0 Ansawdd sy'n allweddol
 - 2.1 Sut mae'r Cynllun Asesu'n gweithio
 - 2.2 Sut ydym yn mesur ansawdd?
 - 2.3 Ar beth fydd yr aseswyr yn edrych?
- 3.0 Cyfreithiol a Diogelwch
 - 3.1 Rhwymedigaethau statudol/Gofynion mynediad sylfaenol
 - 3.2 Iechyd, diogelwch personol a diogelwch eiddo
- 4.0 Achrediad Croeso Cymru – Yr hyn sydd ei angen gennych
 - 4.1 Gwybodaeth cyn cyrraedd ac wrth gyrraedd
 - 4.2 Y tu allan
 - 4.3 Gwelyau
 - 4.4 Cyfleusterau ystafell ymolchi
 - 4.5 Cegin
 - 4.6 Lle byw
 - 4.7 Goleuo a gwresogi
 - 4.8 Cadw tŷ a glendid
- 5.0 Dyfarniad Aur Croeso Cymru – Beth sydd angen i chi ei ddarparu
 - 5.1 Gwelyau
 - 5.2 Ystafelloedd ymolchi
 - 5.3 Cegin
- 6.0 Cynaliadwyedd: Busnes gwell fyth hyd yn oed
- 7.0 Gwneud eich llety'n hygyrch i bawb
- 8.0 Cod Ymddygiad
- 9.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan
- 10.0 Newid Perchenogaeth
- 11.0 Arwyddion
- 12.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

1.0 Cyflwyniad

Mae glampio neu wersylla moethus wedi cydio yn nychymyg pobl ar wyliau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae harddwch a thawelwch y profiad a geir o'r byd naturiol o gysur pabell, pod neu gwt moethus yn apelio'n fawr i gwsmeriaid o bob oed. Mae Croeso Cymru'n deall mai ansawdd sy'n allweddol i lwyddiant ar gyfer pob busnes yn y diwydiant twristiaeth a diben y safon asesu glampio yw hyrwyddo a gwobrwyo ansawdd. Bydd aseswyr Croeso Cymru'n cynnig adborth a chyingor gwrthrychol yn ogystal ag atebion a fydd yn helpu i roi'r fantais gystadleuol arbennig yna i'ch busnes.

2.0 Ansawdd sy'n allweddol

Ein hymrwymiad i chi

Bydd ein haseswyr proffesiynol yn gweithio gyda chi er mwyn gwneud y gorau o botensial eich busnes. Bydd yr asesydd yn asesu pob agwedd ar eich busnes, er mwyn dyfarnu achrediad ac yn rhoi adborth manwl i chi ar sut y gellid gwneud gwelliannau pellach.

Cynigir cyfle i drafod yn union ar ôl yr ymweliad asesu. Os nad yw hynny'n gyfleus, yna gellir trefnu i drafod dros y ffôn. Darperir adroddiad ysgrifenedig manwl ar ôl drafodaeth lafar bob amser.

Asesiad ansawdd

Bydd ein haseswyr yn graddio pob agwedd ar eich busnes; gwefan, y safle ffisegol a llety. Mae'r asesiad yn wrthrychol a bydd yn ystyried agweddau unigryw eich busnes a'r hyn rydych yn ceisio'i gyflawni. Nid yw'n seiliedig ar chwaeth bersonol. Nod yr asesiad yw tynnu sylw at gryfderau eich busnes ac unrhyw feysydd a allai beri siom i'ch cwsmeriaid. Nid yw'n golygu cael gwared ar unrhyw gymeriad, steil neu nodweddion unigryw sydd gan eich busnes.

Beth yw Ansawdd?

Beth bynnag fo maint, math neu arddull eich busnes glampio, yr hyn y mae eich cwsmeriaid yn chwilio amdano yw profiad o ansawdd uchel ac ymweliad cofiadwy. Bydd eich asesydd yn asesu pob agwedd ar eich busnes a welir gan y cwsmer gyda llygad beirniadol, ond gyda'r bwriad bob amser o'ch helpu i wella eich busnes.

2.1 Sut mae'r Cynllun Asesu'n gweithio

Nod y cynllun asesu yw sicrhau y gall gwesteion archebu llety glampio'n hyderus, gan wybod y bydd safon benodol o ansawdd ac y darperir yr holl gyfleusterau sylfaenol.

Bydd dwy lefel o gydnabyddiaeth yn y cynllun Glampio: Achrediad Croeso Cymru a Dyfarniad Aur Croeso Cymru.

Eithriadau

Efallai na fydd rhai safleoedd neu lety'n gallu darparu'r holl ofynion er mwyn cael eu hachredu, oherwydd natur y safle a/neu lety. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y gall Croeso Cymru gynnig eithriad. Bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos.

Achrediad Croeso Cymru

Er mwyn cyflawni achrediad ac arddangos marc ansawdd Croeso Cymru ar eich gwefan bydd angen i chi ddarparu'r holl wybodaeth, y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen a chyrraedd y safon ansawdd ofynnol ym mhob maes.

Dyfarniad Aur Croeso Cymru

Rhoddir dyfarniad Aur Croeso Cymru i gydnabod ansawdd a chyfleusterau eithriadol. Mae'n bosibl i safle gael Achrediad Croeso Cymru ac i un neu fwy o'r unedau unigol dderbyn y dyfarniad Aur.

Er enghraifft: Gallai fod gan safle gymysgedd o bebyll saffari, pebyll crwyn (pebyll iwrt) a chytiau bugail. Dim ond y pebyll saffari sy'n cynnig cyfleusterau ystafell ymolchi 'preifat' i bob pabell a bodloni'r safonau ansawdd uwch ar gyfer dyfarniad Aur. Bydd y gweithredwr yn gallu dangos arwydd Achrediad Croeso Cymru ac arwydd dyfarniad Aur, ond dim ond ar y ddealltwriaeth ei bod yn gwbl glir i ddarpar westeion, mai dim ond y pebyll saffari sydd wedi derbyn y dyfarniad Aur.

2.2 Sut ydym yn mesur ansawdd?

Yn ystod yr ymweliad asesu, bydd eich asesydd yn pwysu a mesur ansawdd pob agwedd ar eich busnes a welir gan y cwsmer a bydd yn rhoi sgôr o 0-5 ar gyfer pob elfen.

0 = annerbyniol

1 = derbyniol

2 = eithaf da

3 = da

4 = da iawn

5 = rhagorol

Ar ddiwedd yr ymweliad gall yr asesydd gyfrifo sgôr canran ar gyfer y safle ac ar gyfer unrhyw lety unigol a allai fod yn gymwys i gael dyfarniad. Rhaid i'r sgôr canran cyffredinol gyrraedd 60% neu uwch er mwyn derbyn Achrediad Croeso Cymru.

Mae angen i'r sgôr canrannol fod yn 80% o leiaf er mwyn bod yn gymwys i dderbyn dyfarniad Aur.

Rheolau Asesu

Gellir nodi Amh (amherthnasol) ar gyfer unrhyw faes sgorio os nad yw'r adran sgorio'n berthnasol i'ch safle ac ni fydd hyn yn effeithio ar y sgôr canran terfynol. Fodd bynnag, bydd angen sgorio rhai adrannau bob amser megis, 'golwg y tu allan a chyflwr yr uned' ac 'ansawdd a chyflwr y gwelyau'.

Naws am Le

Er nad yw ansawdd fyth yn mynd allan o ffasiwn, bydd ychwanegu nawws am le i brofiad yr ymwelydd yn cyfrannu llawer at sicrhau y bydd yr arhosiad yn un cofiadwy. Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion, cynnyrch, neu nodwedd o'ch busnes er mwyn ychwanegu ychydig o flas lleol. Neu gallwch ganfod ychydig o wybodaeth ddiddorol am eich ardal sy'n ychwanegu at eich gwybodaeth ranbarthol, a throsglwyddo hynny i'ch ymwelwyr. Mae 'croeso' yn unig yn rhoi argraff gyntaf neilltuol a bendigedig. Rydym wedi llunio trosolwg o frand Cymru a chanllawiau ar ein nawws am le. Gobeithio y bydd yr offer yma yn rhoi ychydig o syniadau i chi ynghylch sut mae creu profiad bythgofiadwy i ymwelwyr. Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael mwy o wybodaeth.

2.3 Asesiad ansawdd: Ar beth fydd yr aseswyr yn edrych?

Yn ystod eich asesiad, bydd eich asesydd yn gwneud dyfarniadau o'r ansawdd ar draws pob agwedd o'ch busnes a welir gan y cwsmer a bydd yn gwobrwyo sgor rhwng 0-5 am bob elfen.

Gwybodaeth a Chyrraedd

Gwybodaeth cyn cyrraedd

Bydd eich asesydd yn bwrw golwg ar eich gwefan cyn yr ymweliad asesu, ac yn asesu cynnwys y wefan o ran y wybodaeth a ddarperir ar gyfer gwesteion. Adeg yr ymweliad asesu, bydd yr asesydd yn edrych ar unrhyw

wybodaeth sy'n cael ei hanfon at westeion ar ôl iddynt archebu.

Ydy'r gwesteion yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt cyn iddynt gychwyn? Os yw'r wybodaeth yn gynhwysfawr ac wedi'i chynhyrchu'n dda, yna rhoddir sgôr o 5. Os oes pethau wedi'u hepgor neu os gellid gwneud gwelliannau, yna rhoddir sgôr a chynigir cyngor.

Gwybodaeth wrth gyrraedd

Mae hyn yn cael ei sgorio yn yr un modd â gwybodaeth cyn cyrraedd, ond yma, y wybodaeth a ddarperir ar y safle sy'n cael ei hystyried. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y llety a chyfleusterau'r safle, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol am yr ardal leol a'i chyfleusterau.

Pethau ychwanegol wrth gyrraedd

Yma, mae'r asesydd yn edrych ar yr holl bethau ychwanegol yna; y pecyn croeso, y siop ar y safle ac ati.

Bydd pob math o bethau ychwanegol yn cael eu hystyried yn dibynnu ar y safle a'r hyn a ddarperir gan y perchnogion.

Y tu allan

Golwg y tu allan a chyflwr yr unedau

I gael sgôr o 5, bydd defnydd y babell neu strwythur pren y cwt y bugail mewn cyflwr ardderchog, er yr ystyrir pa adeg o'r flwyddyn y cynhelir yr asesiad.

Bydd eich asesydd yn edrych hefyd ar ansawdd a chyflwr decin allanol ac unrhyw ddodrefn y tu allan.

Tir a lleoliad

Bydd angen i'ch asesydd ddeall yr hyn rydych yn ceisio'i gyflawni gyda'ch lleoliad. A yw'n lleoliad naturiol iawn neu'n rhywbeth gwahanol? Bydd llwybrau, manau parcio, tir a gerddi i gyd yn cael eu hystyried. Ydy'r unedau wedi'u lleoli'n dda o safbwynt preifatwydd ac ati.

Gwelyau

Ansawdd a Chyflwr Gwelyau

Ar gyfer glampio, y safon sylfaenol rydym yn ei disgwyl yw gwelyau cyfforddus o ansawdd uchel ar gyfer yr holl westeion. Er mwyn sgorio marciau uwch ar gyfer gwelyau, bydd aseswyr yn edrych ar ofod, cysur a steil. Bydd sgôr o 5 yn cael ei neilltuo ar gyfer y gwelyau arbennig hynny sy'n cynnig moethusrwydd o ran cysur â rhyw steil arbennig yn perthyn iddynt efallai, gan ragori ar ddisgwyliadau gwesteion.

Ansawdd a chyflwr dillad gwely

Mae hyn yn cynnwys ansawdd y cynfasau ac ati, gorchuddion amddiffyn matresi, gobenyddion a dillad gwely. Ac nid ansawdd pob un o'r eitemau hyn yn unig, ond golwg y gwelyau o safbwynt westeion.

Ystafelloedd Ymolchi

Ansawdd a chyflwr y gawod/ystafelloedd ymolchi

Rydym yn deall y bydd cyfleusterau ystafell ymolchi yn amrywio'n fawr o ran eu maint a'u harddull. Mae d^wr poeth a golau'n bwysig ym mhob achos. Bydd rhai cyfleusterau'n breifat, ond yn fwy agored i'r tywydd nag eraill. Asesir y cyfleusterau, gan ystyried arddull yr ystafell neu'r uned.

Cegin

Ansawdd a chyflwr yr holl gyfarpar coginio

Mae yna offer coginio o bob lliw a llun, popeth o dân agored i boptai mawr modern. Gall pob math cynnig rhagoriaeth. Bydd yr asesydd yn edrych am ansawdd, cyflwr a pha mor ddefnyddiol yw'r cyfarpar coginio a ddarperir. Bydd hyn yn cynnwys yr offer cegin yn ogystal â'r prif gyfarpar coginio.

Ansawdd a chyflwr yr holl lestri, gwydrau a chyllyll a ffyrc

Mae'r adran hon nid ond yn ystyried ansawdd y llestri, y cyllyll a ffyrc a'r gwydrau a ddarperir, ond hefyd y detholiad o bob un o'r eitemau hyn. Gwerthfawrogir y bydd rhai safleoedd yn cynnig eitemau nad ydynt yn wydr.

Lle byw

Ansawdd, cysur a hwylustod

Lle yw hwn nad yw'n cael ei neilltuo'n uniongyrchol ar gyfer cysgu'n unig. Bydd pob math o lefydd byw gwahanol yn cael eu darparu. Bydd rhai lefydd byw yn yr awyr agored yn gyfan gwbl, efallai y bydd eraill yn lefydd eang dan do. Er enghraifft, ni fydd cwt bugail yn cael ei gosbi am fod yn fach. Bydd y cwestiynau ar feddwl yr asesydd yn ymwneud â sut mae'r gofod wedi'i drefnu ac yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, pa mor hwylus yw unrhyw le byw yn yr awyr agored yn ystod y dydd a min nos?

Goleuadau a gwres

Pob ardal y tu mewn a'r tu allan

Mae hyn yn cynnwys unrhyw oleuadau a gwresogi ar y safle. Bydd rhai unedau glampio'n cynnig prif gyflenwad trydan ar gyfer goleuadau ond mae llawer nad ydynt yn gwneud hynny. Ni fydd hyn yn dylanwadu ar y sgôr a roddir y naill

ffordd neu'r llall. Wrth asesu goleuadau, bydd y cwestiynau ar feddwl yr asesydd yn ymwneud â pha mor effeithiol a hwylus yw'r goleuadau sydd ym mhob ardal, megis yn yr ardaloedd cysgu ac ar erchwyn y gwelyau. A ddarperir goleuadau wrth ymyl drychau mewn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi? Oes ystyriaeth wedi'i rhoi i westeion sydd angen mynediad i ardaloedd â llai o olau yn ystod y nos? Wrth asesu gwres, bydd yr asesydd yn ystyried pa fisoedd o'r flwyddyn mae'r llety ar agor ar gyfer ei osod. Hefyd, a oes gwres ar gael y tu mewn a'r tu allan? Efallai mai un ffynhonnell fydd ar gyfer gwres a choginio, ond pa mor effeithiol a defnyddiol yw hynny ar gyfer y naill ddiben neu'r llall, neu'r ddau? Gall dulliau gwresogi ychwanegol fod ar gael ar gyfer unedau sydd ar agor gydol y flwyddyn.

Cadw tŷ a glendid

Mae'r adran hon yn cwmpasu pob rhan o'r safle a rhoddir sgoriau ar wahân ar gyfer pob un o'r ardaloedd.

Bydd y disgwyliadau'n amrywio yn ôl y math o safle. Er enghraifft, bydd angen cadw ystafelloedd ymolchi a rennir yn lân a thaclus gan staff yn ystod y dydd. Ar gyfer cyfleusterau ystafell ymolchi preifat, y glanhau rhwng ymwelwyr yn gadael a chyrraedd a asesir. Bydd y cwestiynau y bydd aseswyr yn holi eu hunain yn cynnwys: Ydy'r tir a'r manau parcio yn cael eu cadw'n daclus heb sbwriel? Pa mor lân yw'r ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi, cyfarpar coginio, offer coginio ac ati?

GWYBODAETH A CHYRRAEDD

1. Gwybodaeth cyn cyrraedd 5
2. Gwybodaeth Wrth Gyrraedd 5
3. Pethau ychwanegol wrth gyrraedd 5

Y TU ALLAN

4. Golwg y tu allan a chyflwr yr unedau 5
5. Tir a lleoliad 5

GWELYAU

6. Ansawdd a chyflwr y gwelyau 5
7. Ansawdd a chyflwr dillad gwely. Hefyd dillad gwely os ydynt yn cael eu darparu 5

YSTAFELLOEDD YMOLCHI

8. Ansawdd a chyflwr ystafell gawod / ystafelloedd ymolchi 5
9. Ansawdd a chyflwr toiledau - os ar wahan 5

CEGIN

10. Ansawdd a chyflwr yr holl gyfarpar coginio 5
11. Ansawdd a chyflwr yr holl lestri, gwydrau a chyllylil a ffyrc 5

LLE BYW

12. Ansawdd, cysur a hwylustod 5

GOLEUADAU A GWRES

13. Pob ardal y tu mewn a'r tu allan 5

CADW TY A GLENDID

14. Tir A Gerddi 5
15. Llety cyffredinol 5
16. ystafell gawod/ystafelloedd ymolchi 5
17. Toiledau (os ar wahan) 5
18. Cegin / ardaloedd coginio 5

Cyfanswm uchafswm	<input type="text" value="90"/>
Cyfanswm sgor	<input type="text" value="82"/>
% Sgor	<input type="text" value="91%"/>
Llwyddo	<input type="text" value="Yes"/>
Acolad	<input type="text" value="Yes"/>

Y marc llwyddo ar gyfer Achrediad yw 60% Rhoddir acoladau i unedau unigol. Rhaid i unrhyw uned sy'n derbyn acolad fodloni pob un o'r meini prawf ar y daflen acolad. Rhaid i unrhyw uned sy'n derbyn acolad sgorio o leiaf 80% hefyd.

3.0 Cyfreithiol a Diogelwch

3.1 Rhwymedigaethau statudol/ Gofynion mynediad sylfaenol

Mae cynllun Glampio Croeso Cymru'n asesiad sy'n seiliedig ar ansawdd a dylai'r sgoriau a roddir adlewyrchu profiad gwesteion ac ansawdd y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir gan y llety a'i staff. Caiff yr asesiad ei seilio ar God Ymddygiad Croeso Cymru, ac mae ymrwymiad i hwnnw'n ofynnol er mwyn bod yn rhan o'r cynllun. Mae hyn yn sicrhau bod pob llety glampio'n gweithredu i'r safonau gofynnol ac yn bodloni'r holl rhwymedigaethau statudol.

Mae Cod Ymddygiad Croeso Cymru ar ddiwedd y llyfryn hwn. Mae'n esbonio'r meini prawf sydd angen eu bodloni gan unrhyw lety glampio sy'n rhan o'r cynllun ansawdd.

Bydd y rhwymedigaethau hyn yn amrywio o fusnes i fusnes, yn dibynnu ar natur y llety. Mae gofyn bod gan bob busnes llety yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol neu indemniadau cyfatebol gan y llywodraeth, ac mae gofyn iddynt hefyd gydymffurfio â'r holl reoliadau cynllunio, iechyd, diogelwch a than perthnasol.

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus: er nad yw'n ofyniad statudol, mae'n ofyniad ar gyfer cymryd rhan yng nghynllun Croeso Cymru. Efallai y gofynnir i berchnogion ddarparu tystiolaeth bod ganddynt yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a bod y gofynion isod yn cael eu cyflawni.

Cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol perthnasol, gan gynnwys:

- Asesiad Risgiau Tân: i gydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Darparu synhwyrdd carbon monocsid ym mhob uned lle mae nwy neu olew'n cael ei losgi. Hefyd, mewn mannau lle mae tân agored neu losgwr pren. Dylai synhwyrdd gael ei osod mewn cegin bob amser oni bai bod yr holl gyfarpar yn gyfarpar trydanol.
- Mae angen tystysgrif nwy landlord flynyddol os oes gennych nwy yn eich unedau.
- Bydd Prawf Dyfeisiau Cludadwy rheolaidd (Prawf PAT) yn sicrhau bod cyfarpar yn ddiogel, ond cofiwch fod angen i bob agwedd ar unrhyw gyflenwad trydan fod yn ddiogel.
- Diogelwch Bwyd/Hylendid: cofrestrwch gyda'ch adran lechyd yr Amgylchedd leol os ydych chi'n darparu unrhyw fwyd.

- Iechyd a Diogelwch: gweithredu'n ddiogel gan roi ystyriaeth briodol i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a gyda thystiolaeth o ystyriaeth i ddiogelwch gwesteion a diogelwch eiddo gwesteion; darparu gwybodaeth glir yngl'yn â sut i gysylltu â'r perchennog/rheolwr os oes argyfwng. Darparu diagram neu gyfarwyddiadau amlieithog ar y weithdrefn gwacáu pe bai tân.
- Cynllunio: cydymffurfio ag unrhyw reoliadau cynllunio lleol.
- Trwyddedu: cydymffurfio ag unrhyw reoliadau trwyddedu lleol.
- Deddf Diogelu Data: cydymffurfio â'r Ddeddf hon.
- Prisiau a thalu: ei gwneud yn glir i westeion beth yn union a gaiff ei gynnwys yn yr holl brisiau a ddyfynnir ar gyfer llety, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau ychwanegol eraill; cadw at y prisiau a pheidio codi mwy na'r prisiau a ddyfynnwyd adeg archebu.
- Polisi canslo: egluro'r polisi canslo'n glir wrth westeion adeg archebu, h.y. dros y ffôn, mewn ffacs neu e-bost.
- Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008: cydymffurfio â'r rheoliadau hyn trwy ddisgrifio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir mewn unrhyw hysbyseb, pamffled neu gyfrwng printiedig neu electronig arall.
- Deddf Cydraddoldeb 2010 (sy'n disodli Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995/2005): rhaid i bob gweithredwr gydymffurfio â'r ddeddf hon. Croesawu unrhyw westeion yn gwrtais heb wahaniaethu ar sail rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, hil, crefydd neu gred. Gwneud addasiadau 'rhesymol' i wella gwasanaeth i gwsmeriaid anabl.
- Creu Datganiad Mynediad – disgrifiad o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a gynigir, yn benodol mewn perthynas â hygyrchedd, i roi gwybodaeth i bobl ag anghenion mynediad.

Arferion da – Hygyrchedd

Sicrhau bod y gweithdrefnau gwacáu pe bai tân ar waith ar gyfer pobl anabl. Ystyriwch ddiogelwch tân ar gyfer gwesteion sydd wedi colli eu clyw nad ydynt yn gallu clywed y larwm mwg o reidrwydd. Gallai larymau tân golau strôb neu system alw bersonol fod yn briodol.

Mae cyrsiau hyfforddi penodol ar gael ar sut i groesawu gwesteion o bob math e.e. Croeso i Bawb a Chwsmeriaid ag anableddau World Host. Ystyriwch ddyysgu cyfathrebu sylfaenol yn laith Arwyddion Prydain (BSL).

Am gyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Mynediad, ewch i: <http://www.visitengland.org/access>

Arferion da – Cynaliadwyedd

Ystyried drafftio a hyrwyddo polisi rheoli amgylcheddol, gan nodi'r camau rheoli amgylcheddol a chynaliadwy a gymerwyd gennych chi ar gyfer eich busnes.

Er my Cael rhagor o wybodaeth am y canllawiau, ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/pecyn-cymorth-cynaliadwy> a dilynwch y ddolen i 'Twristiaeth Gynaliadwy'.

3.2 Iechyd, diogelwch personol a diogelwch eiddo

- Cynnal lefel uchel o ddiogelwch personol a diogelwch eiddo cyffredinol, gan gynnwys gwybodaeth am weithdrefnau pe bai argyfwng.
- Os nad yw'r perchennog yn byw ar y safle, dylai ei h/enw, cyfeiriad a rhif ffôn neu rai ei h/asiant, gael eu harddangos mewn man amlwg, ynghyd â manylion clir yngl^yn â sut i alw am gymorth pe bai argyfwng.
- Darparu manylion print yngl^yn â sut i alw am gymorth y gwasanaethau brys a'u gosod mewn mannau amlwg e.e. meddyg, deintydd, a lleoliad y ffôn talu agosaf ac uned ddamweiniau a milfeddygon (os derbynnir anifeiliaid anwes).
- Rhaid darparu trefniadau gwaredu sbwriel addas ar gyfer pob uned fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Lleol. Lle darperir biniau sbwriel, rhaid bod caead arnynt. Rhaid i drefniadau ar gyfer casglu sbwriel gael eu harddangos mewn lle amlwg.
- Os yn briodol, dylai deiliaid gael allwedd i ddrws eu huned, ac unrhyw gyfleusterau perthnasol eraill.
- Dylid darparu digon o oleuadau yn ystod y nos ar gyfer diogelwch a chysur ym mhob ardal gyhoeddus, gan gynnwys meysydd parcio a llwybrau/grisiau i'r unedau ac unrhyw gyfleusterau ymolchi/toiledau ar wahân yn ystod y nos.
- Lle na ddarperir trydan, rhaid egluro hynny. Rhaid nodi'r foltedd os nad yw ar y prif gyflenwad.
- Rhaid bod goleuadau argyfwng ar gael, e.e. tortsh neu oleuadau nos. Nid yw canhwylau'n dderbyniol am resymau diogelwch. Mae tortshys y gellir eu hailwefru yn ddefnyddiol, yn enwedig y math sy'n fflachio os oes toriad yn y cyflenwad trydan.

4.0 Achrediad Croeso Cymru – Yr hyn sydd ei angen gennych

4.1 Gwybodaeth cyn cyrraedd ac wrth gyrraedd

- Ei gwneud yn glir i westeion yn union beth sydd wedi'i gynnwys yn y prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer y llety, e.e. trydan, tanwydd, coed tân, tyweli, cot ac ati. Lle mae TAW yn berthnasol, yr holl brisiau i'w dangos yn cynnwys TAW ar y gyfradd safonol.
- Manylion llawn y llety, gan gynnwys trefniadau cysgu a chyfleusterau ymolchi (a oes bath neu gawod) a ddarperir ar y wefan neu ar ffurf brint cyn gwneud archeb arferol.
- Rhaid egluro manylion unrhyw bolisiâu mewnol, e.e. dim ysmegu, dim anifeiliaid anwes ac ati adeg archebu, er enghraifft, a'u datgan yn glir ar y wefan.
- Dylai darpar westeion fod yn ymwybodol, cyn archebu, o unrhyw dâl a godir am wasanaethau neu gyfleusterau ychwanegol sydd ar gael, gan gynnwys telerau canslo, cadw tŷ a/neu flaendal rhag ofn i bethau gael eu torri.
- Ni ddylid codi prisiau uwch na'r hyn a ddyfynnwyd adeg archebu.

Dylai'r wybodaeth ganlynol fod ar gael yn rhwydd cyn archebu:

- Manylion llawn trefniadau cysgu ac ystafell ymolchi ar gyfer pob uned.
- Polisi clir ynghylch anifeiliaid anwes ar y safle. Naill ai dim anifeiliaid anwes neu ddatgan yn glir bod croeso i anifeiliaid anwes ac o dan ba amodau. Rhaid derbyn cŵn cymorth bob amser.
- Pellter yr uned o'r dafarn/tafarnau, siop(lau), cludiant cyhoeddus agosaf ac ati.
- Natur y cyflenwad dŵr, os nad yw'n dod o'r prif gyflenwad (rhaid i'r cyflenwad dŵr fodloni'r holl reoliadau statudol ar gyfer dŵr yfed).
- Mathau o gyflenwad ynni, os nad trydan.
- Foltedd trydan, os nad yw'n safonol.
- Oes Wi-Fi ar gael?
- Oes signal ffôn symudol da ar gael ar y safle?
- Manylion unrhyw bolisi amgylcheddol a/neu ailgylchu.
- Map a/neu gyfarwyddiadau yn dangos lleoliad yr uned wrth archebu neu gyda'r llyfryn (gall hyn gael ei ddarparu'n fwy manwl ar ôl archebu).

- Amseroedd cyrraedd/gadael posibl.
- Trefniadau parcio ceir ger uned.
- Telerau ac amodau llawn cwbl glir.
- Datganiad hygrychedd ar y wefan.

Ambell awgrym

Pethau ychwanegol

- Ceisiwch ychwanegu cymaint o werth â phosibl drwy gynnwys ambell beth ychwanegol fel rhan o bris y llety.
- Mae pecyn croeso'n cael ei werthfawrogi bob amser.
- Os oes angen coed tân ar gyfer gwresogi neu goginio, yna dylid ei gynnwys yn y pris. Ni fydd gwesteion am fynd oddi ar y safle i brynu coed tân.
- Meddyliwch am ddarparu offer a allai fod yn ddefnyddiol i'ch gwesteion yn eich lleoliad chi. Er enghraifft, esgidiau glaw, offer corff-fyrddio, ysbieddrych, llyfrau ac ati.

Arferion da – Hygrychedd

Cynigiwch ddewis o ddulliau i gysylltu â chi i'ch gwesteion e.e. dros y ffôn, ffacs, llythyr, e-bost, neges destun.

Cofiwch ofyn bob amser a oes gan unrhyw un o'r gwesteion yn y parti unrhyw anghenion mynediad penodol.

Hyrwyddo eich Datganiad Mynediad.

Darparu gwybodaeth ar gais i westeion mewn fformatau amrywiol, e.e. print bras, ffotograffau, fideo, sain ddisgrifiad ac o bosib Braille.

Arferion da – Cynaliadwyedd

Os ydych wedi cymryd camau i wella eich effaith ar yr amgylchedd a'r ardal leol, cofiwch grybwyll hynny ar eich gwefan/taflen – bydd yn ychwanegu at apêl eich busnes. Ystyriwch ymuno â chynllun ardystio i ategu'r cymwysterau hyn.

Cynnwys dewisiadau trafndiaeth gyhoeddus yn eich gwybodaeth hyrwyddo ac archebu.

Gall gwybodaeth cyn cyrraedd hyrwyddo gwasanaethau dosbarthu bwyd lleol a siopau cyfagos fel na fydd gwesteion yn teimlo bod angen prynu bob dim cyn gadael cartref neu archebu nwyddau i'w dosbarthu o archfarchnad.

Ambell awgrym

Gwybodaeth ar y wefan

- Meddyliwch yn ofalus am y wybodaeth cyn cyrraedd rydych yn ei chynnig i westeion

posibl. Bydd glampio'n rhywbeth newydd i lawer o bobl a bydd mynd i'r afael â'r ofnau a'r pryderon a allai fod gan rai pobl yn eich helpu i werthu eich llety.

- Bydd lluniau da'n gwneud llawer o'r gwaith i chi, ond meddyliwch pa gwestiynau a allai fod gan ddarpar westeion. Er enghraifft:
 - A fyddaf yn ddigon cynnes?
 - Oes digon o ddŵr poeth?
 - Ydy'r safle'n dawel?
 - Pa fywyd gwyllt allwn i ei weld?
 - Ydy'r safle'n hawdd dod o hyd iddo?
 - Beth sydd angen i mi ddod gyda mi?

Ambell awgrym

Y croeso

- Rydych am i'ch gwesteion deimlo'n gyfforddus ac ymlacio cyn gynted ag y maen nhw'n cyrraedd y llety.
- Efallai y dylech aros noson yn eich llety eich hun a meddwl pa wybodaeth a nwyddau fyddai'n ddefnyddiol i chi.
 - Sut ydw i'n cynnau'r tân?
 - Ble mae'r siop leol?
 - Ble mae'r dafarn?
 - Sut mae cyrraedd y traeth o fan hyn?
- Ystyried darparu pecyn croeso. Mae te, coffi a llaeth yn bethau amlwg, ond ceisiwch gynnig rhywbeth sy'n unigryw i'ch lleoliad chi. Efallai y byddwch yn gallu hyrwyddo busnesau lleol eraill drwy ddarparu samplau o'u nwyddau.
- Mae gwybodaeth i dwristiaid yr un mor bwysig. Darparwch daflenni gwybodaeth i dwristiaid lleol a bwydlenni ar gyfer tafarnau, bwytai a siopau cludfwyd lleol.
- Gellid darparu llyfr nodiadau syml i westeion hefyd. Drwy sôn yn y cofnod cyntaf cymaint rydych wedi mwynhau bwyty neu atyniad twristiaeth lleol, fe welwch y bydd llawer mwy o argymhellion yn dilyn yn fuan.
- Ystyriwch ddarparu map Arolwg Ordnans lleol, a gwybodaeth am deithiau cerdded hunan-dywys.
- Darparwch ddigon o dortshis.

Arferion da – Hygrychedd

Sicrhewch fod gwesteion yn eich hysbysu os ydynt yn anabl, e.e. cynnig taith ymglyfarwyddo i rai sydd â nam ar eu golwg.

Darparu cloc larwm sy'n dirgrynu ar gyfer gwesteion sydd wedi colli eu clyw.

Cofiwch gynnwys gwybodaeth hygrychedd sylfaenol ar gyfer tafarndai ac atyniadau lleol

neu ddatganiadau mynediad lle maen nhw ar gael.

Arferion da – Cynaliadwyedd

Hyrwyddwch unrhyw gamau a gymerir gan y busnes i wella effaith arosiadau gwesteion.

Dylid egluro trefniadau ailgylchu'n glir.

4.2 Y tu allan

- Cynnal a chadw'r tir a'r lle byw y tu allan sy'n rhan o'r uned mewn cyflwr da.
- Lle mae lle byw ar gael y tu allan yna dylid darparu dodrefn gardd.
- Dylai deunydd allanol yr uned(au) llety fod mewn cyflwr da.
- Dylai'r holl ddodrefn a ffitiadau allanol weddu i arddull yr unedau a dylent fod mewn cyflwr da.
- Os oes gan yr uned ardaloedd ategol, bydd y cyfleusterau a ddarperir yn cael eu hystyried yn yr asesiad o'r sefydliad, lle maen nhw dan reolaeth y gweithredwr. Dylai fod ganddynt arwyneb da, dylent fod mewn cyflwr da gyda digon o oleuadau.

Ambell awgrym

Y tu allan

- Trefnwch fod digon o seddi y tu allan ar gyfer yr holl westeion.
- Efallai bydd gwesteion yn gwerthfawrogi dodrefn sy'n gweddu i'r amgylchedd, yn hytrach na phlastig.
- Mae barbeciws yn boblogaidd iawn gyda gwesteion. Sicrhewch ei fod yn ddiogel, ond gwnewch y profiad yn un o ansawdd uchel a rhwydd iddyn nhw. Dylai'r offer gael ei lanhau rhwng pob set o westeion yn ddi-ffael, felly ystyriwch hyn yn eich amserlen lanhau. Ydych chi'n darparu golosg?
- Ystyriwch ddarparu llestri a gwydrau gwin plastig ac ati o ansawdd da i'w defnyddio yn yr awyr agored.

Arferion da – Hygyrchedd

Ar gyfer cŵn cymorth, darparwch ardal iddynt redeg yn rhydd a mynd i'r toiled ar eich tir neu eglurwch lle mae rhywle addas gerllaw.

Sicrhewch nad oes rhwystrau fel malurion, mwsogl, rhew a dail sydd wedi syrthio ar lwybrau a sicrhewch fod arwynebau'n gadarn ac mewn cyflwr da. Gofalwch fod unrhyw nodweddion parhaol ar y ffordd yn cael eu gosod yn eu lle'n ddiogel e.e. potiau blodau.

4.3 Gwelyau

Efallai na fydd y gwelyau'n draddodiadol, ond mae'n rhaid i bob un gynnig lle da a chysurus i gysgu. Argymhellir gorchuddion amddiffyn matresi digonol, gobenyddion a dillad gwely o ansawdd da.

Ambell awgrym

Gwelyau a dillad gwely

- Dylai glampio wneud gwersylla'n brofiad di-boen ac mae gwelyau cyfforddus yn hanfodol.
- Efallai y bydd lleoliad gwyh a llety anghyffredin gyda gwely gwersyll caled yn addas i rai, ond nid dyna beth fydd diffiniad y mwyafrif o glampio.
- Sicrhewch fod cysgu mor gyfforddus â phosibl gyda'r matresi gorau y gallwch eu fforddio a gobenyddion rhagorol. Ystyriwch ddillad gwely hypo-alergenig.
- Gwnewch y gwelyau'n barod ar gyfer gwesteion a chynnwys cynfasau ac ati ym mhrys y gwyliau.

Ambell awgrym

Preifatrwydd

- Efallai mai golygfeydd hardd fydd un o atyniadau mwyaf eich unedau glampio, ond dylech fod yn ymwybodol o breifatrwydd eich gwesteion bob amser.
- Mae ansawdd yn ymwneud yn rhannol â dewis, ac mae gallu dewis cau llenni neu fleind yn ychwanegu at y dewis personol hwnnw.
- Gall ystafelloedd ymolchi heb orchuddion ffenestr di-draidd wneud i westeion deimlo'n anghyfforddus.
- Dylid gosod llenni neu fleind ar bob ffenestr yn yr uned.

4.4 Cyfleusterau ystafell ymolchi

- Os yw cyfleusterau ystafell ymolchi yn cael eu rhannu:
 - Isafswm cawodydd/baddonau 1:15 gwestai
 - Isafswm tai bach 1:15 gwestai
 - Isafswm basnau ymolchi 1:15 gwestai
- Bydd toiledau'n fflysio'n llawn neu'n doiledau compost.
- Efallai y bydd cyfleusterau'n sylfaenol a gwladaidd, ond byddant i gyd mewn cyflwr da ac yn addas i'w defnyddio.
- Dylid gosod bolltau y tu mewn i ddrysau cawodydd a thoiledau os yw'r cyfleusterau'n cael eu rhannu.

- Dŵr poeth bob amser.
- Goleuadau digonol.
- Gwresogi digonol, pan fo angen.

Ambell awgrym

Darpariaeth ystafell ymolchi

- Ystafell ymolchi breifat, naill ai o fewn y llety neu ger y llety, yn ddelfrydol.
- Efallai y bydd eco-gawod oer yn apelio ar ddiwrnod poeth, ond mae angen digon o ddŵr poeth ar gyfer yr holl westeion.
- Ystyriwch ddarparu tyweli fel opsiwn ychwanegol (codi tâl amdanynt?) gan y bydd hyn yn cael ei werthfawrogi gan westeion sy'n teithio ar drafndiaeth gyhoeddus neu'n heicio/beicio.

Arferion da – Hygyrchedd

Darparu rheilen gynnal ger cawodydd.

Darparu tyweli sy'n cyferbynnu o ran lliw â'r waliau a'r llawr i helpu gwesteion â nam ar eu golwg.

Arferion da – Cynaliadwyedd

Pennau cawod awyrog, sy'n cymysgu aer gyda'r dŵr i roi pŵer gyda llai o ddŵr – gellir eu defnyddio i wella effeithlonrwydd dŵr. Mae tapiau basn awyrog yn cymysgu aer gyda'r dŵr i greu llif 'ewynnog' o ddŵr sy'n fwy effeithlon na thap safonol.

4.5 Cegin

- Popty – gall fod yn ddull coginio syml o losgi coed tân/stôf wresogi/ barbeciw o ansawdd uchel neu gyfarpar mwy confensiynol.
- Golchi llestri. Mae angen cyfleuster digonol gyda dŵr poeth a dŵr oer.
- Digon o lestri, cyllyll a ffyrc ac offer cegin o ansawdd da.

Ambell awgrym

Offer coginio

- Prynwch eitemau o'r ansawdd gorau y gallwch, yn enwedig os mai dim ond lle i un badell ffrio, un sosban, dau fwg ac ati sydd gennych. Cofiwch mai glampio yw hyn, ond nid gwersylla rhad digysur!
- Rhowch gymaint o offer ag y gallwch, o ystyried y lle ar gael, a darparwch eitemau moethus yn ddelfrydol.
- Darparwch lieiniau sychu llestri.

4.6 Lle byw

- Efallai bod lle yn brin, ond dylai fod yn ddigonol ar gyfer nifer y gwesteion.
- Dylai'r holl ddodrefn a ffitiadau mewnol weddu i arddull yr unedau a dylent fod mewn cyflwr da.

Arferion da – Hygyrchedd

Gofalwch fod eich gwesteion yn gallu cyrraedd ffenestri a llenni a'u bod yn hawdd i'w hagar a'u cau.

4.7 Goleuo a gwresogi

- Rhaid bod dull digonol o wresogi ar gael bob amser, hyd yn oed os mai dim ond yn ystod y prif dymor y mae'r llety ar agor, a fydd yn golygu bod angen gwres mewn ardaloedd byw (nid yw gwresogyddion paraffin a nwy Calor rhydd yn cael eu hannog am resymau diogelwch).
- Lle mae yna losgwr coed, dylid darparu offer addas e.e. pocer, gefeiliau, rhaw ac ati.

Arferion da – Cynaliadwyedd

Bydd cynnal a chadw offer trydan, nwy ac olew'n rheolaidd yn helpu i sicrhau bod yr offer yn gweithio'n effeithlon, gan gadw eich biliau tanwydd yn is yn sgil hynny.

Yn lle goleuadau halogen gellir defnyddio goleuadau LED cyfatebol sy'n defnyddio hyd at 10 gwaith yn llai o ynni ac yn para 10 gwaith yn hirach.

4.8 Cadw tŷ a glendid

- Mae glendid yn hollbwysig i westeion, felly mae'n rhaid cynnal safon uchel o lendid ym mhob rhan o'r uned. Rhaid rhoi sylw arbennig i geginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau ac eitemau y mae gwesteion yn eu cyffwrdd, megis dillad gwely, cynfasau ac ati, tyweli, baddonau, cawodydd, basnau ymolchi, toiledau, lloriau, seddi, llestri, cyllyll a ffyrc, gwydrau, offer a chyfarpar cegin.
- Cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau bod pob uned yn cael ei lanhau'n drylwyr, cyn i westeion newydd gyrraedd, boed y gwesteion blaenorol wedi'i lanhau cyn gadael ai peidio.
- Dylid cael gwared ar unrhyw eitemau sydd wedi torri neu'u difrodi cyn i westeion newydd gyrraedd.
- Mae'n rhaid i bob uned gael ei wasanaethu'n llawn rhwng pob set o westeion.

- Os yw cyfleusterau ystafell ymolchi/cawod a thoiled yn cael eu rhannu, rhaid eu glanhau a'u gwasanaethu'n llawn yn ystod y dydd ac yn rheolaidd os gwneir llawer o ddefnydd ohonynt.
- Os yw cyfleusterau coginio'n cael eu rhannu, rhaid eu glanhau a'u gwasanaethu'n llawn o leiaf bob dydd.
- Rhaid i'r tir, y gerddi a'r manau parcio gael eu cynnal a'u cadw'n dda ac edrych yn dda bob amser.
- Rhaid bod arwyddion clir i ardaloedd sbwriel ac ailgylchu, a rhaid eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da.

Ambell awgrym

Cadw tŷ

- Mae'n hanfodol wrth gwrs fod eich llety'n cael ei lanhau a'i baratoi'n drwyadl ar gyfer gwsteion sy'n cyrraedd.
- Ni ddylai fod unrhyw dystiolaeth o'r gwsteion blaenorol.
- Mae'n debyg mai cadw tŷ yw'r rhan unigol bwysicaf o'r broses osod; mae mwy o gwynion gan gwsmeriaid am lendid na dim byd arall.
- Cofiwch, nid glanhau yw diwedd y stori. Mae angen i olwg gyffredinol y llety fod yn dda, gan gynnwys gwelyau a chynnwys y gegin, er enghraifft.

Arferion da – Cynaliadwyedd

Ystyriwch ddefnyddio deunyddiau glanhau di-glorin effaith isel, gan gynnwys cadachau microffibr sy'n golygu bod angen defnyddio llai o hylif glanhau.

5.0 Dyfarniad Aur Croeso Cymru – Beth sydd angen i chi ei ddarparu

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer Gwobr Aur Croeso Cymru rhaid darparu'r holl gyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer achrediad Glampio Croeso Cymru, a dim ond os yw ansawdd y cyfleusterau yn cyfateb i'r safonau gofynnol hefyd y gellir cyflawni hyn.

5.1 Gwelyau

- Gwelyau â matresi sbring neu sbwng o ansawdd uchel ar gyfer yr holl westeion. (Bydd mathau eraill o welyau yn cael eu hasesu ar sail ansawdd a chysur.) Maint lleiaf

gwely sengl i oedolion yw 3' a maint lleiaf gwely dwbl i oedolion yw 4'6".

- Gallai gwelyau plant fod yn llai.
- Dylai gwelyau fod wedi'u gwneud erbyn i westeion gyrraedd, gyda dillad gwely, gobenyddion a chynfasau ac ati o ansawdd da.

5.2 Ystafelloedd ymolchi

- Dylai fod gan yr uned ei hystafell ymolchi breifat ei hun. Gallai fod yn yr uned neu'n agos iawn at yr uned. Er enghraifft, byddai ystafell ymolchi ar gyfer cwt bugail nesaf ato, neu'r tu ôl i'r cwt.
- Ni fyddai disgwyl i westeion basio unrhyw lety arall ar eu ffordd i'w hystafell ymolchi.
- O leiaf 1 gawod/bath, toiled a basn ymolchi ar gyfer pob 8 gwestai.
- Rhaid gallu defnyddio'r gawod heb ei dal â llaw a bydd gan y gawod bwysedd dŵr da.

5.3 Cegin

- Rhaid bod gan yr uned ei chyfleusterau coginio ei hun. Fel yn achos yr ystafell ymolchi, bydd hyn naill ai'n rhan o'r uned neu gerllaw'r uned. Efallai bydd y cyfleusterau coginio y tu allan, ond mae gofyn i'r holl offer coginio angenrheidiol fod yn y gegin dan do.
- Mae angen adnoddau coginio digonol i ddarparu ar gyfer yr holl westeion.
- Dŵr poeth a d'wr oer gyda chyfleusterau golchi llestri.
- Cyfarpar coginio, offer coginio, llestri, cyllyll a ffyr a gwydrau o safon uchel.

Cyffredinol

Beth bynnag yw arddull y llety, bydd ansawdd y dodrefn a'r ffitiadau a'r gorffeniad o'r safon uchaf, o fewn cyd-destun y math o lety a gynigir.

6.0 Cynaliadwyedd: Busnes gwell fyth hyd yn oed

Gall Croeso Cymru helpu

Credwn fod dulliau cynaliadwy yn gwneud synnwyr o safbwynt busnes yn ogystal â gwella effaith y sector twristiaeth.

Yn ogystal â'r cyngor rhagarweiniol a gewch yma, rydym wedi datblygu adnoddau i'ch helpu, sydd ar gael yn: <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/pecyn-cymorth-cynaliadwy> neu drwy ffonio 03000 6 03000.

7.0 Gwneud eich llety'n hygyrch i bawb

Gall llety ymwelwyr fod yn her i bobl anabl ac eraill sydd ag anghenion mynediad am sawl rheswm. Mewn ymateb i hyn, mae llawer o weithredwyr wedi bod yn gwella hygyrchedd eu llety dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau y gallant roi croeso cynnes a diogel i bobl anabl.

Maen nhw wedi bod yn gwneud hyn nid yn unig drwy ddarparu ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn lle bynnag y bo modd, ond hefyd ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu clyw neu sydd wedi colli eu golwg, ymwelwyr h^yn, pobl ag anabledd cudd neu unigolion ag anabledd dysgu.

Un elfen allweddol o ddiwallu anghenion y gynulleidfa enfawr hon yw darparu gwybodaeth gywir o flaen llaw a fydd yn galluogi pobl anabl, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr i benderfynu ydyn nhw am ymweld â chi. Gellir darparu hyn ar ffurf Datganiad Hygyrchedd.

Ffordd arall o wneud hyn, os oes gennych eich gwefan eich hun, yw drwy wneud yn siŵr ei bod yn hawdd i bob cwsmer ei defnyddio, gan gynnwys y gallu i newid maint y ffont ac ati.

NODER: Un o amodau cael eich cymeradwyo gan Croeso Cymru yw bod yn rhaid llunio datganiad mynediad a nodi pa mor hygyrch yw eich busnes. Dylai gael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau dros amser, a dylai fod ar gael i ddarparu westeion. Mae'n syniad da rhoi'r Datganiad Mynediad ar-lein fel arfer. Am gyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Mynediad, ewch i: <https://www.visitbritain.org/business-advice/make-your-business-accessible/create-accessibility-guide>

Rhwymedigaethau cyfreithiol

Mae gan bob busnes rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ragweld a darparu ar gyfer pobl anabl ac eraill sydd â 'nodweddion gwarchoddedig'.

Trwy wneud addasiadau rhesymol i'ch darpariaeth gwybodaeth, hyfforddiant staff a hygyrchedd ffisegol, gan gynnwys trefniadau amgen lle bo angen, byddwch yn helpu i fodloni eich rhwymedigaethau, ac ar ben hynny, yn gwneud eich llety'n fwy hygyrch i bawb.

8.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ystyried a dilyn y Cod Ymddygiad canlynol:

- Cynnal safonau gofal gwasteion, glendid a gwasanaeth sy'n briodol i'r math o sefydliad.
- Disgrifio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir mewn unrhyw hysbyseb, pamffled neu gyfryngau print neu electronig eraill.
- Egluro'n llawn i ymwelwyr beth yn union a gaiff ei gynnwys yn y prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer llety, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau ychwanegol eraill. Dylai manylion taliadau am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol gael eu gwneud yn glir hefyd.
- Rhoi datganiad clir o'r polisi yn ymwneud â chanslo i westeion adeg archebu h.y. dros y ffôn, ffacs, e-bost yn ogystal â gwybodaeth a roddir mewn fformat print.
- Cadw at, a pheidio codi mwy na'r prisiau a ddyfynnwyd adeg archebu am lety a gwasanaethau eraill.
- Cynghori ymwelwyr adeg archebu ac wedi hynny am unrhyw newid, os yw'r llety yn cael ei gynnig mewn adeilad digyswllt neu debyg, ac egluro lleoliad llety o'r fath ac unrhyw wahaniaeth o ran cysur a/neu gyfleusterau rhyngddo a llety'r prif safle.
- Rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb i bob ymwelydd ar gais, os oes angen.
- Ymdrin yn brydlon ac yn gwrtais â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan ymwelwyr.
- Sicrhau bod yna weithdrefnau trin cwynion ac yr ymchwilir yn brydlon ac yn gwrtais i gwynion a dderbynnir a chyfleu'r canlyniad i'r ymwelydd.
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i ofynion ymwelwyr sydd ag anabledau ac ymwelwyr ag anghenion arbennig, a gwneud darpariaeth briodol lle bo hynny'n berthnasol.
- Darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu drefniant cyffelyb a chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cynllunio, diogelwch a statudol perthnasol eraill sydd mewn grym.
- Caniatáu mynediad rhesymol i'r safle i gynrychiolydd Croeso Cymru ar gais, i gadarnhau bod y Cod Ymddygiad yn cael ei ddilyn yn llawn.

9.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan

Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau sicrhau ansawdd Croeso Cymru:

- Fodloni neu ragori ar ofynion lefel mynediad sylfaenol Croeso Cymru o ran Cyfleusterau/ Gwasanaethau ac ansawdd yn y sector llety perthnasol.
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Cael ei asesu, ac os oes cwynion, gan gynrychiolydd awdurdodedig Croeso Cymru.
- Talu ffi flynyddol i fod yn rhan o'r cynllun.
- Darparu datganiad mynediad.

10.0 Newid Perchenogaeth

Pan fydd sefydliad yn cael ei werthu, ni ellir trosglwyddo'r achrediad cyfredol i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i fod yn rhan o gynllun sicrhau ansawdd Croeso Cymru.

11.0 Arwyddion

Os bydd sefydliad yn rhoi'r gorau i fod yn rhan o gynllun sicrhau ansawdd Croeso Cymru am ba reswm bynnag, mae'n rhaid i bob arwydd arddangos a ddeunydd print perthnasol gael eu symud ar unwaith.

Mae rhestru sefydliad mewn cyhoeddiad/ ar wefan Croeso Cymru'n amodol ar barhau i fod yn rhan o gynllun sicrhau ansawdd Croeso Cymru.

Gall peidio â chydymffurfio â'r amodau hyn olygu na fydd y sefydliad yn gymwys i arddangos neu ddefnyddio cymeradwyaeth Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd o gwbl.

12.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

Os ydych chi'n teimlo bod gennych reswm i anghytuno â'r achrediad a roddir i'ch eiddo, neu'n anghytuno â rhai agweddau ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, yna mae croeso i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl wedi i chi dderbyn eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0845 0108020 neu anfonwch e-bost i quality.tourism@llyw.cymru a gwnawn geisio helpu.

Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020

Ffacs: 0300 062 2081

E-bost: quality.tourism@llyw.cymru